menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# MENTER IAITH FFLINT A WRECSAM

Mudiad lleol yw Menter Iaith Fflint a Wrecsam sy'n hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

# SWYDDOG GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL

Rydym yn chwilio am berson brwd ac egnïol i weithio gyda ni drwy gynnal ystod eang o weithgareddau a phrosiectau hwyliog er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau siroedd y Fflint a Wrecsam.

**Cyflog: £19,680 + cyfraniad pensiwn cyfatebol hyd at 6%**

**Oriau:** 37 awr yr wythnos (croesewir ceisiadau gan bobl sydd am weithio'n llawn amser, rhan-amser neu rannu'r swydd). Rydym yn gweithredu polisi gweithio hybrid ynghyd â phatrymau gwaith hyblyg.

**Lleoliad:** Mae swyddfa'r Fenter yn yr Wyddgrug

**Dyddiad Cau: Hanner dydd, Dydd Llun 4ydd Gorffennaf 2022**

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â **Gill Stephen** (Prif Swyddog)
gill@menterfflintwrecsam.cymru 01352 744040
neu ewch i https://www.facebook.com/menteriaithffaw am fwy o wybodaeth.

**(This is an advertisement for the post of Community Activities Officer for which the ability to communicate through the medium of Welsh and English is essential.)**

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Gweithgareddau Cymunedol

## Menter Iaith Fflint a Wrecsam

### Cefndir

Nod y Mentrau Iaith ydy hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru. Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, ac erbyn hyn mae 22 Menter Iaith yn gwasanaethu pob rhan o Gymru. Wedi tyfu o awydd a dyheadau pobl leol y mae'r Mentrau Iaith, er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn eu cymunedau. Lleolir swyddfa **Menter Iaith Fflint a Wrecsam** yn yr Wyddgrug, gan wasanaethu pob ardal a holl drigolion siroedd y Fflint a Wrecsam. Mae'r Fenter yn cyflogi 6 aelod o staff.

### Gwaith Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Mae'r Mentrau Iaith yn un o bartneriaid allweddol Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu ar lawr gwlad i wireddu amcanion **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** – sydd yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae pob Menter Iaith yn gweithredu mewn ffordd unigryw yn ddibynnol ar anghenion lleol. Ein prif feysydd gwaith yma yn siroedd y Fflint a Wrecsam yw:

**Teuluoedd**: Mae ein gweithgareddau a phrosiectau yn annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref, tynnu sylw at fanteision dewis Addysg Gymraeg, ac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal a chwarae.

**Plant a Phobl Ifanc**: Rydym yn gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth hamdden a chymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol tu allan i'r ysgol.

**Y Gymuned**: Trwy gydweithio â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu cymunedau eu hunain rydym yn gweithio i gryfhau'r iaith fel iaith gymunedol, naturiol.

**Prif Gyfrifoldebau:-**

- Gweithio gyda staff eraill Menter Iaith Fflint a Wrecsam i weithredu Rhaglen Waith y Fenter trwy drefnu gweithgareddau blaengar a hwyliog sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol;
- Datblygu prosiectau penodol a flaenoriaethwyd yng Nghynllun Corfforaethol Menter Iaith Fflint a Wrecsam;
- Paratoi ceisiadau am nawdd ar gyfer datblygu a chyllido prosiectau a gweithgareddau;
- Cynorthwyo'r Swyddog Busnes i reoli gwariant cyllideb prosiectau a gweithgareddau'r Fenter;
- Cydweithio â phartneriaid y Fforwm Sirol i gefnogi unrhyw weithgaredd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol;
- Cynorthwyo i sefydlu a chynnal Pwyllgorau Ardal mewn ardaloedd ieithyddol penodol;
- Cynorthwyo i greu a pharatoi deunyddiau marchnata a datblygu ymgyrchoedd marchnata penodol fel bo'r angen;
- Cynorthwyo i weithredu Cynllun Marchnata'r Fenter a chodi ei phroffil yn y wasg leol a chenedlaethol;
- Mynychu cyfarfodydd ar ran y Fenter pan fo angen.

**Telerau'r Swydd**

| | |
|---|---|
| **Cyflog**: | £19,680 + cyfraniad pensiwn cyfatebol hyd at 6%. |
| **Costau Teithio**: | Telir costau teithio o 45c y filltir. |
| **Oriau Gwaith**: | 37 awr yr wythnos, ond mae'r Fenter yn gweithredu polisi gweithio hybrid ynghyd â phatrymau gwaith hyblyg. Bydd disgwyl i'r sawl a benodir weithio oriau anghymdeithasol yn unol â galwadau gwaith o bryd i'w gilydd. Croesewir ceisiadau gan bobl sydd am weithio'n llawn amser, rhan-amser neu rannu'r swydd. |

| | |
|---|---|
| **Gwyliau**: | 24 diwrnod y flwyddyn i ddechrau ond yn cynyddu ar raddfa'n seiliedig ar hyd gwasanaeth (yn ogystal â gwyliau banc). |
| **Hyd y Contract**: | Swydd barhaol ddibynnol ar gyllid digonol ac yn amodol ar adolygiad perfformiad boddhaol ar y cyfnod prawf. |
| **Strwythur Rheoli:** | Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Byddwch yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Fflint a Wrecsam. |
| **Rhybudd Terfynu Swydd:** | 1 mis |
| **Lleoliad:** | Lleolir swyddfeydd y Fenter yng Nghorlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP. |

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2022 ac fe'i adolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**FFURFLEN GAIS**

CYFRINACHOL A PHREIFAT

Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn ein helpu i asesu eich addasrwydd ar gyfer y swydd gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Atebwch y cwestiynau i gyd os gwelwch yn dda. Bydd y wybodaeth yn hollol gyfrinachol.

**MANYLION PERSONOL**

| Teitl y swydd | Swyddog Gweithgareddau Cymunedol | Cyfeirnod | Mehefin 2022 |
|---|---|---|---|

| Cyfenw | | Enw cyntaf | |
|---|---|---|---|

| Cyfeiriad Cartref | Rhif ffôn gartref a symudol | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|
| | | |

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

| | | |
|---|---|---|
| | | |

**ADDYSG UWCHRADD, PRIFYSGOL A CHYRSIAU HYFFORDDIANT**

| Dyddiad | Ysgol /Prifysgol/ Darparwr | Cwrs neu arholiad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|
| | | | |

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**EICH SWYDD BRESENNOL (os yn berthnasol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r cwmni | | | |
| Natur y busnes | | | |
| Teitl y swydd | | Cyfnod terfyn | |
| Dyddiad cychwyn | | Dyddiad gadael (os yn berthnasol) | |

**Rhowch ddisgrifiad byr o'r sefydliad, yr adran berthnasol a'ch prif ddyletswyddau yn y swydd. Beth yw'ch uchafbwyntiau cyn belled a pham yr ydych am adael y swydd?**

| |
|---|
| |

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**EICH GYRFA HYD YMA**

| **Cyflogwr** | **Hyd eich gwasanaeth (mewn blynyddoedd a misoedd)** | **Teitl y swydd** | **Rheswm am ymadael** |
|---|---|---|---|
| | | | |

## EICH ADDASRWYDD AT Y SWYDD

Rhowch enghreifftiau o'ch profiad sydd yn dangos fod gennych y sgiliau a ddisgwylir ar gyfer y swydd hon. Disgrifiwch sefyllfaoedd sydd yn dangos sut y deliwyd gyda'r sefyllfa a beth oedd y canlyniad. Bydd enghreifftiau o'ch bywyd personol neu waith gwirfoddol yn dderbyniol. Defnyddiwch dudalen ychwanegol os fo angen.

Rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn dau ganolwr gan gynnwys eich cyflogwr diweddaraf. Ni chysylltir â'r canolwyr nes bo cyfweliad wedi ei gynnig.

| | |
|---|---|
| | |

Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant, pobl ifainc ac oedolion agored i niwed rydym yn dod i gyswllt â hwy. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw aelod staff sydd ag unrhyw gollfarnau troseddol perthnasol yn dod i gyswllt â phlant, pobl ifainc ac oedolion agored i niwed.

Dan amodau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, gofynnir i chi nodi yma unrhyw gollfarnau troseddol sydd gennych sydd heb ddarfod.

| |
|---|
| |

Wrth gynnig swydd, cedwir yr hawl i wneud cais am wiriad gan y Biwro Cofnodion Troseddol fydd yn cynnwys manylion am rybuddiadau, ceryddau a chollfarnau er mwyn gwirio addasrwydd yr ymgeisydd i'r swydd.

**DATGANIAD**

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Cadarnhaf fod y ffeithiau uchod yn gywir, ac y byddant yn rhan o'r cytundeb gwaith pe bawn yn llwyddiannus yn fy nghais. Rhoddaf ganiatâd i'r cwmni wireddu'r ffeithiau. Deallaf fod pob cynnig yn dibynnu ar adroddiadau derbyniol oddi wrth y canolwyr.

| Llofnod | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

**Ble clywoch chi am y swydd hon?**

_____

**DYDDIAD CAU:**

**Postiwch neu e-bostiwch y ffurflen erbyn hanner dydd, Dydd Llun 4ydd Gorffennaf 2022 at:-**

Gill Stephen, Prif Swyddog Menter Iaith Fflint a Wrecsam ,Uned 3,Corlan,Parc Busnes yr Wyddgrug, Stryd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir Fflint ,CH7 1XP

gill@menterfflintwrecsam.cymru